# PWYLLGOR CRAFFU
# DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**5 MAWRTH 2021**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, T.A.J. Davies, J.A. Davies, K. Davies, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, E. Morgan, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, A.D.T. Speake, D. Thomas ac A. Vaughan Owen

Y Cynghorydd K. Lloyd - yn lle'r Cynghorydd P. Edwards.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr C.A. Campbell, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig;
H.A.L. Evans, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd;
P.M. Hughes, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Diogelu'r Cyhoedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol;
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth;
R. Carmichael, Rheolwr Cadwraeth Gwledig;
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes;
K. Davies, Rheolwr Datblygiad Cynaliadwy;
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu’r Amgylchedd;
H. Neil, Uwch-swyddog Diogelu Defnyddwyr;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
J. Corner, Swyddog Technegol;
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 12:43yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P. Edwards.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| K. Lloyd | Eitem 6 - Cynllun Carbon Sero-net | Mae'r Cynghorydd Lloyd yn aelod o *Carmarthen Energy Ltd* ac yn un o'i gyfranddalwyr |

**3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**4. STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2018/23 - DIWEDDARIAD EBRILL 2021**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd C. Campbell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2018-23, ym mis Ebrill 2021.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn amcanion Llesiant y Cyngor a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018, fel y'i diwygiwyd i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith y pandemig Coronafeirws (Covid-19), Brexit a newid yn yr hinsawdd.

Er yr ystyriwyd ei bod yn arfer da sicrhau bod y Strategaeth Gorfforaethol wedi'i diweddaru a bod adnoddau wedi'u dyrannu i flaenoriaethau, nododd y Pwyllgor fod yn rhaid cyhoeddi'r Amcanion Gwella yn flynyddol yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mesur Cymru 2009) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gwnaed sylwadau ategol hefyd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd, y Cynghorydd H. Evans; a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd, y Cynghorydd P.M. Hughes ynghylch eu portffolios penodol.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at Amcan Llesiant 8 – Cefnogi cydlyniant cymunedol, cydnerthedd a diogelwch. Mewn perthynas â'r ystadegyn bod 73% o drigolion Sir Gaerfyrddin, bum mlynedd yn ôl, yn teimlo eu bod yn byw mewn cymuned gydlynol, mynegwyd pryder ei fod wedi gostwng i hanner (51.5%). Gofynnwyd a oedd esboniad am y gostyngiad sylweddol. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod adroddiad wedi'i gyflwyno'n ddiweddar i'r Bwrdd Gweithredol ar waith oedd yn ymwneud â chydlyniant cymdeithasol. Yn dilyn ymgynghori helaeth, roedd tystiolaeth bod tensiynau wedi deillio o ddadl Brexit a oedd wedi rhannu teuluoedd, ffrindiau a chymunedau. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn cydnabod bod pandemig Covid-19 hefyd yn ffactor, yn ogystal â'r ddadl gyhoeddus ar fudiad *Black Lives Matter.*

Gofynnwyd a allai'r adroddiad uchod i'r Bwrdd Gweithredol gael ei anfon ymlaen at aelodau'r Pwyllgor. Nodwyd hyn a byddai camau'n cael eu cymryd i sicrhau hynny.

- Cyfeiriwyd at Gydnerthu Cymunedol (Amcan Llesiant 8). Er cydnabod bod y pandemig yn her sylweddol a oedd wedi dod â chymunedau at ei gilydd, roedd problem gynyddol yn Sir Gaerfyrddin oherwydd newid yn yr hinsawdd, ac roedd canlyniadau hynny wedi arwain at lifogydd yn digwydd droeon. Gofynnwyd a oedd y Cyngor yn gallu dysgu o'r cyfnod hwn er mwyn meithrin mwy o gydnerthedd cymunedol. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod llawer o gymunedau, yn ystod y pandemig, yn gweithio gyda'i gilydd i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed. O ran llifogydd yn benodol, derbyniwyd eu bod yn digwydd yn amlach. Oherwydd cymhlethdod y problemau hyn, awgrymwyd mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â nhw fyddai datblygu ateb hirdymor strategol drwy gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin ac Undebau'r Ffermwyr.

  Er deall bod heriau, dywedwyd y byddai'n fuddiol petai rhagor o gyfleoedd ar gael i gymunedau weithio ochr yn ochr â sefydliadau'r trydydd sector, yn enwedig yn y broses adfer.

- Cyfeiriwyd at Amcan Llesiant 10. Gofynnwyd a ddylai rôl 'Sir Gaerfyrddin rhydd rhag plastig' fod yn rhan o'r amcan hwn fel Amgylchedd Iach a Diogel, ac a yw'r Cyngor yn dal i weithio tuag at hyn? Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod y Cyngor wedi pasio polisi i roi'r gorau i ddefnyddio 'Plastig Untro', ac er bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda chyrff cyhoeddus eraill, roedd yn cael ei gydnabod bod llawer o waith i'w gyflawni o hyd. Fodd bynnag, dywedwyd y byddai llawer o'r ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin yn rhydd rhag plastig erbyn hyn. Ychwanegodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fod y Cyngor, yn dilyn bwlch byr o ran y mater hwn oherwydd y pandemig, bellach yn gweithio tuag at y nod o roi'r gorau i ddefnyddio pob math o Blastig Untro. Mewn perthynas â'r cwestiwn o gynnwys hyn yn Amcan Llesiant 10, byddai hyn yn cael ei ystyried.

- Gan gyfeirio at Amcan Llesiant 11 a'r adran gwella cludiant i'r ysgol, gofynnwyd a wnaed unrhyw gynnydd gyda Llywodraeth Cymru o ran newid y pellteroedd ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol am adborth manwl a'i bod yn aros i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi.

- Gofynnwyd a fyddai'r Pwyllgor yn ystyried sefydlu comisiwn hinsawdd tebyg i rai cynghorau eraill a oedd yn gweithio gyda'r Sefydliad Hinsawdd *(Climate Foundation).* Awgrymwyd y gellid cynnal astudiaeth ddichonoldeb i ystyried ffurfio comisiwn hinsawdd.

- Cyfeiriwyd at Amcan Llesiant 7 – Byw'n Dda – Helpu pobl i fyw bywydau iach. O ran camddefnyddio sylweddau, gofynnwyd a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i fannau/ystafelloedd diogel y gallai unigolion mewn angen dybryd fynd iddynt. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd fod nifer o fannau diogel ar gael at ddefnydd unigolion oedd yn camddefnyddio sylweddau. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod sefydliad effeithiol iawn yn bodoli o'r enw Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS), a oedd yn rhoi cymorth i ddefnyddwyr cyffuriau ac yn darparu mannau diogel. Mewn cyfarfod diweddar gyda'r Prif Uwcharolygydd am gyffuriau'n benodol, dywedwyd bod problem fawr o ran Llinellau Sirol ym mhob rhan o Sir Gaerfyrddin. Yng ngoleuni'r wybodaeth hon, tynnwyd sylw at bwysigrwydd DDAS a sefydliadau eraill o'r fath a oedd yn darparu cymorth amhrisiadwy.

- O ran y problemau llifogydd, nodwyd bod graean yn arfer cael ei dynnu o welyau'r afonydd yn y gorffennol er mwyn eu hatal rhag gorlifo. Awgrymwyd y byddai ailgyflwyno'r broses o garthu'r afonydd i wneud lle i'r dŵr yn gam ataliol y gellid ei gymryd er mwyn osgoi rhagor o lifogydd. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ymchwilio i'r posibilrwydd o garthu afonydd unwaith eto.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r effaith roedd pandemig Covid-19 wedi'i chael ar ansawdd yr aer yn Sir Gaerfyrddin, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd fod gwelliant sylweddol wedi bod yn ansawdd yr aer ers dechrau'r pandemig. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf a fyddai'n cyfeirio at y wybodaeth hon.

- Cyfeiriwyd at fesurau llwyddiant allweddol Amcan Llesiant 10 ar dudalen 34 o'r adroddiad. Awgrymwyd cynnwys mesur llwyddiant allweddol ychwanegol mewn perthynas â lleihau ynni. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig â'r awgrym gan fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud i leihau allyriadau carbon a byddai cynnwys y mesur allweddol hwn yn dangos y llwyddiant mewn sawl agwedd ar y gwaith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad diweddaru Ebrill 2021 ar Strategaeth Gorfforaethol 2018/23.**

## 5. COVID-19 A'R CYNLLUN DIOGELU RHAG CAMFANTEISIO ARIANNOL

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a gyflwynwyd gan Gadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a oedd yn adolygu'r Cynllun Diogelu Camfanteisio Ariannol (FESS) ar hyn o bryd. Cynigiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a oedd yn cynnal adolygiad o'r ymyriadau ehangach y mae'r tîm yn eu gweithredu o dan FESS, y byddai'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad o fudd i holl aelodau'r Pwyllgor.

Nod yr adroddiad oedd cynyddu ymwybyddiaeth a rhoi gwybod i aelodau'r Pwyllgor am y gwaith rhagweithiol oedd yn cael ei wneud gan y tîm Safonau Masnach ar gamfanteisio ariannol a'i waith yn amddiffyn y rhai sy'n agored i ecsbloetio yn ystod Pandemig Covid-19.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:-

- Taflen gymorth Parthau Dim Galw Diwahoddiad Covid-19, Hyfforddiant am Weithredu Amheus, Twyll a Sgamiau
- Ffeithluniau digidol - manylion yr ymyriadau y mae Safonau Masnach yn eu cynnig
- Ffeithlun Cyngor Busnes - sy'n cynnwys enghreifftiau o sgamiau busnes cyffredin a gwybodaeth hanfodol arall
- Gwybodaeth am y cynllun Prynu â Hyder
- Gwybodaeth ystadegol mewn perthynas â'r offeryn monitro arloesol trueCall©

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Philip Hughes, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd, gyda chefnogaeth y Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mynegodd aelod, fel rhywun oedd wedi cael ei dwyllo, fod y gefnogaeth a ddarparwyd gan y tîm Safonau Masnach drwy gydol y profiad wedi bod yn hynod ddefnyddiol, a siaradodd o blaid gwaith yr adran ar FEES.

- Dywedwyd, gan fod galw diwahoddiad ar gynnydd, ei bod yn dda nodi bod y tîm Safonau Masnach yn cydweithio â'r heddlu.

Roedd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol am ddiolch yn ddiffuant i holl swyddogion y tîm Safonau Masnach am eu gwaith rhagorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Covid-19 a'r Cynllun Diogelu Camfanteisio Ariannol.**

## 6. CYNLLUN CARBON SERO-NET - ADRODDIAD DIWEDDARU (DRAFFT)

[Sylwer: Roedd y Cynghorydd K. Lloyd, ar ôl datgan yn gynharach, ddiddordeb personol yn yr eitem hon, wedi aros yn y cyfarfod, wedi cymryd rhan yn yr ystyriaeth ond heb gymryd rhan yn y penderfyniad].

Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Carbon Sero-net gan y Cyngor Sir ar 12 Chwefror 2020, roedd y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Carbon Sero-net wedi cael ei llunio yn unol â Cham Gweithredu NZC-28 o'r Cynllun, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyhoeddi'n flynyddol adroddiadau perfformiad ar y cynnydd tuag at fod yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030.

Cafodd y Pwyllgor y fersiwn ddrafft o'r adroddiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Cefin Campbell, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig. Roedd yr adroddiad drafft yn cynnwys gwybodaeth fanwl yn yr adrannau canlynol:

- Crynodeb Lefel Uchel gan gynnwys Cynnydd yn erbyn Camau
- COVID-19 a Newid Hinsawdd
- Diweddariad Cynnydd
- Camau yn y Dyfodol
- Ymateb Ehangach i'r Argyfwng Hinsawdd (Atodiad 1)

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- O ran materion llifogydd, holwyd sut roedd y Cyngor yn mynd i weithio gydag undebau'r ffermwyr. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod y Gweithgor Materion Gwledig wedi ystyried rheolaeth slyri, a oedd wedi nodi bod llygredd afonydd wedi gostwng. Fodd bynnag, roedd nifer o ffactorau eraill yn gysylltiedig heblaw am y diwydiant ffermio. Roedd yn ofynnol i ffermwyr gadw at reoliadau penodol, lle gallai torri'r rheoliadau fod yn fesur gwell.

- Cyfeiriwyd at y cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru i osod hwb gwefru cyflym iawn ar gyfer cerbydau trydan yn Crosshands, a gofynnwyd a ellid cael rhagor o wybodaeth am hyn. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig fod 26 o bwyntiau gwefru ar draws y Sir ar hyn o bryd a'r uchelgais oedd gosod mwy. Darparodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd ddiweddariad yn cadarnhau bod cais am grant wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru osod 14 pwynt gwefru arall y flwyddyn nesaf. O ran datblygu hwb gwefru cyflym iawn yn Crosshands, cadarnhawyd bod y gwaith yn digwydd yn unol â'r amserlen yn barod i'w gomisiynu yn Ebrill eleni.

- Gofynnwyd a ddylid cynnwys pwyntiau gwefru cerbydau trydan fel amod cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr e.e. archfarchnadoedd. Eglurodd y Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth fod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu strategaeth genedlaethol ar wefru cerbydau trydan, i'w chyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Ar ôl i'r strategaeth hon gael ei chyhoeddi, gallai strategaeth cerbydau trydan y Cyngor geisio ymrwymiad gan ddatblygwr i'r seilwaith gwefru cerbydau trydan.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd gan Western Power Distribution unrhyw gynlluniau i wella capasiti'r system rhwydwaith dosbarthu trydan leol (Grid), dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig ei fod yn ymwybodol o drafodaethau gyda Western Power Distribution ar y mater hwn. Cadarnhaodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy fod Swyddogion yn cynnal trafodaethau gyda Western Power Distribution a Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Adroddwyd bod Western Power Distribution wedi galw'n ddiweddar am dystiolaeth i nodi prosiectau carbon isel 'parod' os oedd digon o gapasiti gan y Grid. Byddai'r Cyngor yn ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth ar y cyd â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar 19 Mawrth 2021.

Mewn ymateb i ymholiad pellach, dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd mai un enghraifft o gynllun oedd hwnnw gan gwmni gwastraff a gwaredu'r Cyngor, Cwm Environmental Ltd, a fu'n gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i gael ail dyrbin gwynt yn Nant-y-caws. Roedd trafodaethau cychwynnol gyda Western Power Distribution wedi dangos y byddai'n bosibl gosod tyrbin gwynt o faint penodol i'w allforio i'r Grid. Fodd bynnag, ar ôl trafod ymhellach, roedd yn siomedig dysgu y byddai'n rhaid lleihau maint y tyrbin gwynt arfaethedig gan nad oedd gan y Grid ddigon o gapasiti i dderbyn y trydan fyddai'r tyrbin gwynt arfaethedig yn ei gynhyrchu. Roedd hyn yn dangos bod problemau o ran cyfyngiadau ar y Grid hyd yn oed wrth gysylltu un tyrbin gwynt. Fodd bynnag dywedwyd bod y cynllun yn barod, a byddai hyn yn cael ei fwydo'n ôl i alwad diweddar Western Power Distribution am dystiolaeth.

- Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd digon o ynni i gyflenwi datblygiadau mawr cynlluniedig, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy fod gan Western Power Distribution Fap Capasiti Rhwydwaith rhyngweithiol ar-lein a roddai wybodaeth am y capasiti oedd ar gael gan y Grid mewn ardaloedd penodol (darparwyd hyperddolen ar dudalen 20 o'r Adroddiad Diweddaru drafft). Hefyd, mae Western Power Distribution wedi cynhyrchu Senarios Rhwydwaith Ynni'r Dyfodol rhyngweithiol ar-lein sy'n amlinellu ystod o wahanol senarios yn y dyfodol ar gyfer twf y Grid.

- Mynegwyd siom, ddwy flynedd ers i'r Cyngor ddatgan argyfwng hinsawdd am y tro cyntaf ym mis Mawrth 2019, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi dosbarthu ei chanllawiau adrodd i Awdurdodau Lleol eto. Gofynnwyd a oedd unrhyw arwydd fod canllawiau Cymru ar adrodd am Garbon ar ei ffordd gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb i hyn, dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynaliadwy mai'r disgwyl oedd y byddai'r canllawiau'n dod i law cyn diwedd mis Mawrth 2021.

- Gan gydnabod y problemau o ran seilwaith y Grid, gofynnwyd a oedd unrhyw gynllun neu strategaeth lefel uchel i Gymru, er mwyn cynyddu'r capasiti dosbarthu fel y gallai pob Awdurdod oedd wedi datgan argyfwng hinsawdd gyrraedd targed 2030. Mewn ymateb i hyn, cydnabu'r Rheolwr Datblygu Cynaliadwy nad oedd y mater hwn wedi'i gyfyngu i Awdurdodau Lleol unigol, a dywedodd mai dim ond un o'r datblygwyr posibl a oedd yn dymuno buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy oedd Sir Gaerfyrddin. Dywedwyd bod Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Strategaeth Datgarboneiddio a oedd yn debygol o gael ei chwblhau cyn y Gynhadledd Newid yn yr Hinsawdd (COP26) yn Glasgow, Tachwedd 2021.

- Mewn ymateb i ymholiad mewn perthynas â'r Cyngor yn buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy lle'r oedd angen costau atgyfnerthu i gynyddu capasiti'r Grid, dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig y gallai cost rhoi'r seilwaith angenrheidiol ar waith fod yn sylweddol, a sicrhaodd yr Aelodau na fyddai dim arian yn cael ei ymrwymo oni bai bod sicrwydd yn cael ei roi y byddai capasiti Grid digonol ar gael. Yn ogystal, pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw Awdurdod Lleol yn Garbon Sero-net erbyn 2030 oni bai bod gan y Grid ddigon o gapasiti, felly roedd yn bwysig cynnal trafodaethau ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

- Cyfeiriwyd at y cam gweithredu ynghylch gweithio gyda phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Gofynnwyd a oedd unrhyw un o'r partneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i Garbon Sero-net. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig nad oedd yn ymwybodol o unrhyw gyrff eraill o'r sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin a oedd wedi datgan argyfwng hinsawdd. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrthi'n trafod ffyrdd o leihau ôl troed carbon fel sir. Ychwanegodd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, er bod pob aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwybodol o'r argyfwng hinsawdd a bod ganddynt amcanion ar waith i leihau eu hôl troed carbon, byddai hi'n holi a oedd modd cynnwys y drafodaeth hon ar agenda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol.

- **Cynigiwyd** bod y Pwyllgor hwn yn ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i gyfleu ei bryder ynghylch capasiti cyfyngedig y rhwydwaith dosbarthu trydan lleol ac i ofyn i Lywodraeth Cymru weithio gydag Awdurdodau Lleol, ac eraill, i ddatblygu cynllun clir i fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn ei lythyr yn mynegi ei siom nad yw Canllawiau Adrodd ar Garbon Cymru wedi'u cyhoeddi hyd yma. Cynigiwyd ymhellach fod y Pwyllgor yn gofyn i'r Bwrdd Gweithredol, mewn llythyr ar wahân at Lywodraeth Cymru, adleisio a chefnogi sylwadau'r Pwyllgor. Cafodd y cynigion eu heilio'n unol â hynny.

- Mewn ymateb i ymholiadau a godwyd ynglŷn â phrosiect newid Goleuadau Stryd i LED, cadarnhaodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y gwaith ar rwydwaith ffyrdd y sir wedi'i gwblhau a bod y 15,000 o oleuadau a oedd yn y rhaglen wedi eu newid i LED, gan arbed dros 2.3m awr gilowat o drydan ers 2015. Yn ogystal, er y byddai angen iddo gadarnhau gyda'r Aelodau ar ôl y cyfarfod, dywedodd ei fod yn credu bod y gwaith newid hwn wedi'i gwblhau yn achos y rhan fwyaf o Gynghorau Tref/Cymuned a oedd wedi ymuno â'r cynllun.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**6.1 bod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i gyfleu'r sylwadau a nodwyd uchod;**

**6.2 ARGYMELL I'R BWRDD GWEITHREDOL fod y Bwrdd Gweithredol yn ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru i gefnogi ac ailddatgan sylwadau'r Pwyllgor.**

**6.3 bod y Cynllun Carbon Sero-net yn cael ei dderbyn.**

## 7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:-

- Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) – Cynllun Cyflawni ar gyfer y Dyfodol
- Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Cynlluniau Busnes Adrannol

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd wrth y Pwyllgor, o ran y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, fod oedi pellach yn anffodus ac y byddai'r adroddiad hwn yn awr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf ym Mai 2021, ac nid yn Ebrill fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 derbyn y dyddiad diwygiedig ar gyfer y Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;**
**7.2 nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiad.**

## 8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Nododd y Pwyllgor nifer yr adroddiadau ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf, o ganlyniad i lawer o adroddiadau gohiriedig dros y misoedd diwethaf. Fodd bynnag, eglurodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig sicrhau bod y Pwyllgor yn gwneud gwaith craffu o ansawdd da, ac felly cynigiwyd ymestyn cyfarfod y Pwyllgor i'r prynhawn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**8.1 nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 19 Ebrill 2021;**

**8.2 ymestyn cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd ym mis Ebrill i'r prynhawn.**

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1 CHWEFROR 2021

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2021 yn gywir.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**